## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Deddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor"). Mae Rhan 2 o Ddeddf 2014 yn rhoi swyddogaethau i'r Cyngor mewn perthynas â phersonau y mae'n ofynnol iddynt gofrestru yn y gofrestr y mae'r Cyngor yn ei chynnal yn unol ag adran 9 o'r Ddeddf honno ("y Gofrestr").

Mae'r categorïau o bersonau cofrestredig wedi eu nodi yn Nhabl 1 ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer ym mharagraff 2 o'r Atodlen honno i ychwanegu, diwygio neu ddileu categori cofrestru. Yn unol â hynny, mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Tabl 1 ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014 i ychwanegu'r categorïau a ganlyn o berson cofrestredig (Rhan 4 o'r Gorchymyn hwn)—

(a) gweithiwr ieuenctid;

(b) gweithiwr cymorth ieuenctid; ac

(c) ymarferydd dysgu seiliedig ar waith.

Effaith Rhan 2 o'r Gorchymyn hwn yw creu system cofrestru gwirfoddol ar gyfer gweithwyr ieuenctid, fel y caiff unrhyw berson sy'n darparu gwasanaethau datblygu ieuenctid gofrestru â'r Cyngor. Fodd bynnag, mae Rhan 2 hefyd yn darparu bod rhaid i berson gofrestru â'r Cyngor os yw'n dymuno darparu gwasanaethau datblygu ieuenctid ar gyfer neu ar ran corff perthnasol (fel y'i diffinnir yn y Gorchymyn hwn) (erthygl 3(1)).

Mae erthygl 3(2) yn nodi eithriad i'r cyfyngiad yn erthygl 3(1); mae'r eithriad hwnnw yn gymwys pan fo person yn symud i'r DU o aelod-wladwriaeth arall yn yr Undeb Ewropeaidd er mwyn gweithio fel gweithiwr ieuenctid ar sail dros dro ac achlysurol. Nid yw'r person hwnnw yn ddarostyngedig i'r gofyniad i gofrestru ("yr esemptiad i weithwyr dros dro ac achlysurol o'r UE"). Mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau cydymffurfedd â Rhan 2 o Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015.

Effaith Rhan 3 o'r Gorchymyn hwn yw creu system cofrestru gwirfoddol ar gyfer gweithwyr cymorth ieuenctid, fel y caiff unrhyw berson sy'n darparu gwasanaethau datblygu ieuenctid gofrestru â'r Cyngor. Fodd bynnag, mae Rhan 3 hefyd yn darparu bod rhaid i berson gofrestru â'r Cyngor os yw'n dymuno darparu gwasanaethau datblygu ieuenctid ar gyfer neu ar ran corff perthnasol. Mae erthygl 5(2) yn darparu bod yr esemptiad i weithwyr dros dro ac achlysurol o'r UE hefyd yn gymwys i'r cyfyngiad yn erthygl 5(1).

Effaith Rhan 4 o'r Gorchymyn hwn yw creu system cofrestru gorfodol ar gyfer ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith, fel bod rhaid i unrhyw berson sy'n darparu gwasanaethau ymarferydd dysgu seiliedig ar waith ar gyfer neu ar ran corff dysgu seiliedig ar waith (fel y'i diffinnir yn y Gorchymyn hwn), gofrestru â'r Cyngor (erthygl 7(1)). Nid oes darpariaeth i ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith gofrestru'n wirfoddol.

Mae'r tabl diwygiedig ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014 yn disgrifio ymarferydd dysgu seiliedig ar waith fel person sy'n darparu gwasanaethau ymarferydd dysgu seiliedig ar waith ar gyfer neu ar ran corff dysgu seiliedig ar waith. Corff dysgu seiliedig ar waith yw corff a gyllidir gan Weinidogion Cymru i ddarparu gwasanaethau dysgu seiliedig ar waith. Gellir gweld rhestr o gyrff o'r fath ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.dysgu.llyw.cymru.

Mae'r disgrifiad o ymarferydd dysgu seiliedig ar waith yn cynnwys nifer o rolau proffesiynol sy'n ymwneud â chyflenwi dysgu seiliedig ar waith. O fewn y proffesiwn, adwaenir y rolau hyn yn

aml fel "mentoriaid", "hyfforddwyr" ac "aseswyr". Mae erthygl 7(2) yn darparu bod yr esemptiad i weithwyr dros dro ac achlysurol o'r UE hefyd yn gymwys i'r cyfyngiad yn erthygl 7(1).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.